Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

27.06.2023

Annwyl Mr Vickers

Ar 6 a 7 Mehefin 2023, cynhaliodd Alan Edwards AEF a Mark Campion AEF, ymweliad monitro peilot a ganolbwyntiodd ar un argymhelliad o arolygiad craidd yr awdurdod lleol o wasanaethau addysg llywodraeth leol ym mis Mawrth 2022. Ystyriodd y tîm gynnydd yn erbyn argymhelliad 4. Cytunwyd ar yr ymweliad hwn ar y cyd â chi a'r Cyfarwyddwr Addysg. Isod, ceir crynodeb byr o'n canfyddiadau.

**Argymhelliad 4 Gwella arweinyddiaeth strategol dysgu ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

Ers yr arolygiad craidd, mae'r awdurdod lleol wedi integreiddio gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant a theuluoedd dan gyfarwyddwr strategol newydd. Mae hefyd wedi ailstrwythuro arweinyddiaeth yn y gyfarwyddiaeth addysg, gan gynnwys penodi Cyfarwyddwr Addysg newydd a dau bennaeth gwasanaeth newydd. Ers i'r trefniadau hyn gael eu sefydlu, mae perthnasoedd rhwng yr awdurdod lleol, yr ysgolion a phartneriaid wedi cryfhau. Mae diwylliant cynyddol o onestrwydd a thryloywder rhwng yr awdurdod a'i ysgolion.

Mae uwch arweinwyr yn yr awdurdod lleol yn cyfarfod ag uwch reolwyr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (CGA) yn rheolaidd ac maent yn dechrau cydweithio â'i gilydd yn fwy rhagweithiol i gynnig cymorth targedig i ysgolion a nodwyd. Lle y nodwyd problemau, er enghraifft o ran ansawdd Partneriaid Gwella Ysgolion, mae'r GCA wedi ymateb yn gadarnhaol i adborth gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y gwaith hwn yn llawn. Mae cyfarfodydd y bartneriaeth yn llwyfan i'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol drafod cymorth i ysgolion. Ar hyn o bryd, nid yw'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar faterion strategol bob tro, er enghraifft ansawdd ac effaith cymorth i ysgolion yn yr awdurdod lleol.

Mae timau yn yr awdurdod lleol yn gweithio'n fwy cydweithredol i gefnogi eu hysgolion. Er enghraifft, erbyn hyn, mae Swyddogion Lles Addysg yn mynychu cyfarfodydd penaethiaid, yn ymgysylltu'n fwy rheolaidd â'r gwasanaeth seicoleg addysg ac yn cyfarfod ag uwch reolwyr mewn ysgolion yn rheolaidd. Mae hyn yn eu helpu i nodi a chefnogi disgyblion y mae eu presenoldeb yn peri pryder a nodi strategaethau ysgol gyfan i wella presenoldeb.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Mae strategaeth ADY newydd i lywio gweithredu'r diwygiadau ADY yn agos at gael ei chadarnhau, yn barod i'w defnyddio o fis Medi 2023 ymlaen. Mae'r awdurdod lleol wedi ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid ar y strategaeth hon. Wrth i'r strategaeth gael ei datblygu, mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau addas i wella gwasanaethau i ddisgyblion ag ADY a mynd i'r afael â'r diffygion a amlygwyd adeg yr arolygiad.

Erbyn hyn, mae'r awdurdod lleol yn goruchwylio'r defnydd o ddyddiau wedi'u haddasu neu amserlenni gostyngol ar gyfer disgyblion unigol yn ei ysgolion ac yn cymryd camau priodol i sicrhau bod y trefniadau hyn wedi'u cyfiawnhau'n llawn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r awdurdod lleol wedi cytuno ar feini prawf derbyn ac ymadael clir ar gyfer darpariaeth arbenigol ag ysgolion, a thrwy'r gwaith hwn mae wedi nodi'r angen i ehangu mathau penodol o ddarpariaeth ar gyfer mis Medi 2023 i fodloni anghenion disgyblion. Cynhaliwyd adolygiadau ar gyfer pob un o'r canolfannau adnoddau anghenion arbennig mewn ysgolion. Mae'r adolygiadau hyn wedi amlygu arfer dda, sy'n cael ei rhannu ar draws yr awdurdod lleol, ac mae gan bob canolfan gynllun gweithredu i wella agweddau ar ei darpariaeth. Mae swyddogion wedi cynorthwyo penaethiaid a chydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADYau) i ddeall gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn well a datblygu ymagweddau cyffredin at brosesau sy'n ymwneud â datblygu Cynlluniau Datblygu Unigol.

Mae'r awdurdod lleol wedi ailddiffinio rolau a chyfrifoldebau arweinwyr a swyddogion ar draws y gyfarwyddiaeth. O ganlyniad, mae gan staff ddealltwriaeth gliriach o systemau a phrosesau ar gyfer cynllunio eu gwaith ac maent yn datblygu dealltwriaeth well o sut mae pob gwasanaeth yn gweithio gydag ysgolion. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio ystod ehangach o wybodaeth i'w gynorthwyo i ddatblygu gwybodaeth gryfach am ei ysgolion; er enghraifft, mae cyflwyno map gwres yr awdurdod lleol yn ddiweddar wedi helpu swyddogion i nodi'r ysgolion sydd â'r angen mwyaf am gymorth ac ymyrraeth.

Mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno 'grŵp gwella carlam' mewnol sy'n cynnig cyfleoedd defnyddiol i arweinwyr fonitro a herio cynnydd ar draws y gyfarwyddiaeth. Mae hefyd wedi cyflwyno 'bwrdd gwella strategol' allanol, sydd â'r nod o ddarparu atebolrwydd a sicrwydd allanol i'r awdurdod lleol.

Er y bu gan yr awdurdod lleol agwedd synhwyrol a phwyllog tuag at wella gallu arweinwyr ar draws y gyfarwyddiaeth, mae'n rhy gynnar i fesur effaith llawer o'r newidiadau diweddar hyn.

Gobeithio y bu'r cyfle i fyfyrio'n gydweithredol ar eich gwaith yn ddefnyddiol i chi. Bydd arolygydd cyswllt yr awdurdod lleol ar gyfer Torfaen yn parhau i ymgysylltu â'r awdurdod a byddwn yn cynnal rhagor o ymweliadau monitro yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf 2024.

Yn gywir,



**Jassa Scott**
Cyfarwyddwr Strategol